# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 5 Mawrth 2021
am 21.00.yh.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Rowland Jones, Ada Evans, Meic Francis, Dewi Rattray, Meirion Davies.**

**ABSENOLDEBAU: Dylan Davies, Caredig Jones, Richard Davies, Ann Tudor, John Davies.**

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Miss Mawrth, sef cyfarfod 1af 2021 a chyfarfod 1af y Cyngor Cymuned ar Lein, gan yr Is-gadeirydd Cyng Meic Francis.

Dachraeodd y cyfarfod 9.00pm dros TEAMS.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf sef Mis Tachwedd gan y clerc a chynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Meic Francis & eiliwyd gan y Cyng. Rowland Jones.

21/006- MATERION YN CODI

Ar ôl i John Burns codi pwnc bins y pentref, mae'r cyngor wedi penderfynu edrych i mewn at brynu arwyddion 'No household food waste' a 'No nappies' i roi ar finiau'r pentref. Bydd y clerk yn edrych i mewn at hyn yn bellach.

21/007- LLYTHYRON

1. Llythyr wrth Moelwen Gwyndaf ynglŷn â thai ar gyfer pobol leol / ail dai. Gan fod y cyfarfod yn cael eu cynnal dros TEAMS, teimlwyd fod yn anodd trafod y llythyr yn iawn gan fod llawer yn y cynnwys. Penderfynnwyd anfon copi o'r llythyr i'r cynghorwyr eu gweld ac ail drafod yn ystod y cyfarfod nesaf.
2. Llythyr oddiwrth aelod o'r gymuned ynglŷn â chyn-hydd mewn sbwriel sydd i'w weld o gwmpas y pentref. Gofynnwyd I'r clerc cysylltu nôl i egluro ei bont fel arfer yn cynnal noson casglu sbwriel, ond oherwydd y covid-19, nid ydynt wedi gallu cynnal. Byddwn yn edrych mewn i wneud hyn mor gynted a fydd yn ddiogel i wneud.
3. Nodyn ffordd ar gau - B4576 Rhodmad Llangwyryfon.
4. Ymholiad oddiwrth aelod o'r gymuned ynglŷn â'r 'temporary fence' wrth ymyl stad tai Y Gorlan. Beth sy'n digwydd gan fod wedi bod yna ers amser erbyn hyn? Ofynnwyd I'r clerc cysylltu â'r datblygwr tai ynglŷn â hyn a'r posibilrwydd o gael ffens fwy sefydlog yma.

21/008- ARIANNOL

1. Cais am help ariannol wrth Gymdeithas Datblygu Cymuned Llanilar, tuag at yswiriant Neuadd y pentref. Cyfanswm eleni yw £1,790.03. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.Meirion Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray. Fe wnaeth y Cyng.Rowland Jones a Cyng.Meic Francis datgan diddordeb.
2. Cais am help ariannol gan Y Ddolen. Ar ôl trafod, fe wnaeth y cynghorwyr penderfynu rhoi cyfraniad o £100. Fe gynigwyd gan y Cyng.Ada Evans ac eiliwyd gan y Cyng.Rowland Jones.
3. Tal o £25 ar gyfer torch pabi Miss Tachwedd. Cynnigwyd I'w dalu gan y Cyng.Meirion Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Ada Evans.
4. Cyflog y clerc ar gyfer Miss Hydref, Tchwedd, Rhagfyr, Ionawr, Chwefror a Mawrth, Cyfanswm o £799.56; cynigwyd i'w dalu gan y Cyng.Meic Francis ac eiliwyd gan y Cyng.Ada Evans.
5. Invoice Dan Owens ar gyfer torri'r fynwent £1275. Cynnigwyd I'w dalu gan y Cyng.Ada Evans ac eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray.

6. Nodwyd fod y clerc wedi bod yn wneud ymholiadau bellach ynglŷn â TAW a ni dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn 2017. Yn anffodus fe gynghorwyd nad ydyn nhw'n gallu cyrchu cofnodion o'u hen system. Y cyngor a roddir nawr yw cyflwyno cais newydd cyn unrhyw geisiadau TAW eraill. Mae'r clerc eisoes wedi gwneud hyn.
7. Mae'r clerc eisoes wedi anfon taliadau siec i'r HMRC ar gyfer cael y PAYE wedi diweddari. Siec o £100.20 ac £404.80. Mae siec o £398.40 angen nawr ar gyfer diwedd y flwyddyn.

21/009 - CYNLLUNIO

Cais: A210013
Ymgeisydd: Prys Davies TE & EM Davies & Sons
Y Bwriad: Proposed Cattle Shed Unit with Nutrient Tank below
Roedd dim gwrthwynebion ac fe benderfynwyd cefnogi'r cais, roedd pawb yn gytûn.

Cais: A210023
Ymgeisydd: Adam Osborne, Tynlon, Llanilar
Y Bwriad: New self catering holiday accommodation cabin in client's garden
Roedd dim gwrthwynebion a fe Penderfynnwyd gefnogi'r cais, roedd pawb yn gytûn.

21/010 - UNRHYW FATER ARALL

1. Mae aelodau o'r cyhoedd wedi codi consyrn ynglyn a'r gyffordd ystâd tai Close Cadno. Gofynnwyd i'r clerc cysylltu â'r adran priffyrdd ynglyn a'r sefyllfa yma, i weld os oes bosib cael arwydd 'Give-Way' yma?

Orffennwyd y cyfarfod am 9.50pm